# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc/ *Clerk* | 26 Stryd Fawr |
| **Caroline Jones** | Bethesda |
| 01248 602131 | Gwynedd |
| cyngorLlanllechid@ogwen.org | LL57 3AE |


**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd ar nos Iau yr 8fed o Ionawr 2026 am 7yh yn Festri Capel Bethlehem, Talybont**

**1.Presennol**

**Ward Llanllechid Isaf**

Y Cynghorydd Rhydian Williams
Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Geraint Hughes
Y Cynghorydd Robin Williams

**Ward Llanllechid Uchaf**

Ddim yn bresennol,

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harries
Y Cynghorydd Kevin Williams

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Y Cadeirydd, Y Cyng. Rhydian Williams.

**2.Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd Alun Thomas
Y Cynghorydd Lowri Evans
Y Cynghorydd Dafydd K Jones

**3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 10fed o Ragfyr, 2025.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**4.1 Arwyddion Maes y Groes –** Gohebiaeth gan Meirion MacIntyre-Huws, Cyngor Gwynedd. Cafodd yr arwyddion Maes y groes eu dal yn ôl oherwydd bod angen edrych ar nifer o safleoedd eraill. Mae wedi gyrru neges at y Peiriannydd Ardal yn archebu'r

arwyddion yn swyddogol. Mae o'n gobeithio byddan nhw'n eu gosod maes o law. Dim diweddarad.

**4.2 Bin Halen Bryn Derwas** – Y Clerc wedi siarad gyda Mr Ian Morgan, Cyngor Gwynedd (11/9/25), mae Cyngor Gwynedd yn asesu ac ail lenwi biniau halen mis yma. Mr Morgan am drefnu symud bin Maes y Groes i Fryn Derwas. Y Clerc i ddilyn i fyny.

**4.3 Tyllau yn y ffordd a dwr yn codi Lôn Aber Ogwen–** Y Clerc wedi wedi siarad gyda Mr Ian Morgan, Cyngor Gwynedd ar yr (11/9/25). Dim diweddariad, dal ar y rhestr waith.

**4.4 Diffyg biniau ar lwybr beicio Wîg a diffyg bin yn y Gilfan gyferbyn ar yr A55 –** Y Clerc wedi cyfarfod Mr David Charles yn y gilfan ar y 19/9/25.
Nid yw Cyngor Gwynedd yn awyddus i osod bin yn y gilfan ond mae nhw'n agored i drefnu casgliadau sbwriel rheolaidd. Trafodwyd hefyd gosod bin ar lwybr Wig. Disgwylir diweddariad am y trefniadau.

**4.5 Ffens bren ger pont Allt Ty'n Hendre** – Diweddariad gan Mr Ian Morgan, Cyngor Gwynedd ar y (11/9/25), Mae'r gwaith hwn yn parhau i fod ar ei rhaglen,
Y Clerc i anfon antgoffyn i Gyngor Gwynedd pob 3 mis. Y Clerc i gael diweddariad.

**4.6 Terfyn Cyflymder Lon Wig -** Derbynwyd ymateb gan Sian Gwenllian MS/AS, gyda ymateb Cyngor Gwynedd fel atodiad. (Gohebiaeth eitem 12)**.** Er nad oes bwriad i ostwng y terfyn cyflymder, mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i edrych ar ffyrdd eraill i wella diogelwch y ffordd drwy ystyried dynodi'r ffordd hon yn 'Lôn Dawel', ac y byddent yn trafod hynny gyda'r Cyngor Cymuned. Nod Lonydd Tawel yw hyrwyddo defnydd mwy diogel o ffyrdd gwledig trwy annog gyrru ystyriol a chodi ymwybyddiaeth o'i ddefnydd gan gerddwyr, beicwyr a marchogion ceffylau. Dim diweddariad. Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd am ddiweddariad

**4.7 Sedd Wag Llanllechid Uchaf –** dim diweddariad.

**4.8 Wern bach –** Diweddariad gan Mr Ian Morgan, Cyngor Gwynedd ar yr (11/9/25) Mae'r ffordd yn un sydd ar lwybr graeanu â blaenoriaeth, felly bydd dim gwaith yn cael ei gynnal nes bydd y gaeaf dros ben.

**4.9 Arwydd Llwybr Tanybwlch** – Gohebiaeth gan Mr Robert Jones, Cyngor Gwynedd. Mae wedi ychwnageu y safle yma at y rhaglen arwyddo. Am rhoi arwydd ar ddechrau y ffordd/llwybr I fynu y trac, yn y gobaith fydd hyn yn gadarnhad i gerddwyr fod mynediad cyhoeddus yma. Gobeithio gwneud y gwaith yn fuan, os yw y cyllid yn caniatau.

**4.10 Lôn Goed** – Lôn wedi culhau a drain wedi gordyfu –Y Clerc wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd yn pwysleisio'r diffyg cynnal a chadw o fewn y plwyf, er gwaethaf adroddiadau'n cael eu gwneud.
Ymateb gan Cyngor Gwynedd yw bod Lon Goed wedi cael toriad gan contractwr 14/10/25 yn ôl y cofnodion sydd ganddynt, tua'r un adeg a'r mwyafrif o'r ffyrdd bychain yn y plwyf. Roedd hyn yn hwyrach na'r arfer oherwydd trafferthion achoswyd wrth i'r contractwr arferol dynnu allan o'r gontract i dorri'r ffyrdd bychain. O ganlyniad

cafwyd gryn drafferth i gael contractwr yn eu lle gan achosi'r oedi mewn cyflawni'r gwaith mae'r Cyngor yn ei wneud.

**5. Adroddiad Cyngor Sir, Y Cyng Dafydd Meurig.**
Dim adroddiad.

**6. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol;

| | | |
|---|---|---|
| Elen Williams | Gwaith Celf container Cae Peldroed | £3404.82 |
| Y Cyng Evan Jones | Taleb £30 – enillydd cystadleuaeth celf | £30 |
| Y Cyng Evan Jones | Taleb £20 – ail cystadleuaeth celf | £20 |

Y Cyng Geraint Hughes wedi gorfod gadael y cyfarfod.

**7. Cyllid/Finances**

Cymeradwywyd / *Accounts confirmed*

**8. Praesept 2026/27 / Precept**

Adolygwyd gwariant y flwyddyn 2025-26, a rhagfynegiadau gwariant 2026-27 a phenderfynwyd codi'r praesept o 2%.

**9. Y Mynydd**

**9.1 Cwt Dafydd Ross** - Y plac wedi ei chwblhau. Penderfynwyd ddefnyddio rhodd Dragon's back i dalu am y plac. Y Cyng Robin Williams wedi trefnu cael ysgythru y llechen. Bydd angen trefnu gosod ar y cwt.

**10. Cae Peldroed/Cae Chwarae Talybont**

- Y Clerc wedi cysylltu gyda Mr Llifon Foulkes, Cyngor Gwynedd am feinciau i'r cae chwarae. Mae'r meinciau ar gael i'w casglu.
- Y Cyng Evan Jones am drefnu cyfarfod pellach unwaith y bydd yr holl wybodaeth wedi'i chasglu.
- Y Clerc i ddadansoddi 'r holiaduron.
- Adroddiad i'w cwblhau i GwyneddNi. Y Clerc a'r Cyng Evan Jones.
- Diweddariad ar y prosiect.
    - Mae'r paentio wedi cychwyn ar y cwt.
    - Mae'r arwyddion yn cael eu gwneud a byddant yn cael eu peintio unwaith y byddant wedi'u gorffen.
    - Ennillwyr y cystadleuaeth celf wedi cael ei gwobrwyo

## 11. Gohebiaeth

- Gorfodaeth Cynllunio – Tafarn y Faenol – Y Cyng Robin Williams am adolygu'r gwybodaeth ac adrodd yn nôl.
- Proses adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri – Y Cyng Rhydian Williams am gynrychioli Cyngor Cymuned Llanllechid

## 12. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr

Dim

## 13. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio

**C24/1128/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Cais i ymgymryd â gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed
**Penderfyniad** Ar y gweill

**Ceisiadau Newydd**

Dim

## 14. Materion Brys/Eraill

**Shaky bridge –** Ffens wedi torri. Clerc i adrodd i Gyngor Gwynedd

**Diweddariad Mis Hydref/Tachwedd**

- Arwydd Llanllechid wrth Fferm Bryneithin wedi torri – wedi adrodd
- Pafin o Gypsy Corner i Tai'n Lon yn berygl gyda dail a gordyfiant – wedi adrodd

## 15. Adroddiad Llais Ogwan

- Codi'r praesept o 2%.
- Diolch i Gyngor Gwynedd am ariannu y cam yma o'r brosiect drwy grant GwyneddNi.
- Bydd toriadau cae peldroed Talybont yn ail gychwyn yn fuan – gofyn am wirfoddolwyr